| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **8ed o Chwefror 2024** |
| **TEITL** | **Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |

## 1 Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.

2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2018 a 2023 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.

3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.

3.3 Hefyd, fe nodir 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis ym mis Medi 2023.

3.4 Rydym wedyn yn nodi ein 'Casgliad' o'r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni'r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i

gwblhau', yntau a yw yn parhau 'ar waith'. Yn dilyn adborth gan y Pwyllgor, mae'r categori 'wedi ei gwblhau' bellach wedi ei rhannu yn ddau er mwyn adlewyrchu os yw'r argymhellion wedi eu gwireddu neu os ydynt yn waith parhaus ar gyfer yr adran. Mae'r casgliadau yma wedi eu cytuno gan Grŵp Llywodraethu'r Cyngor. Mater i'r Pwyllgor hwn yw barnu a yw'n cytuno â'r 'Casgliadau'. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 1.

3.5 Mae'r adroddiadau yn Atodiad 1 i gyd yn rai a oedd a'u argymhellion 'heb ei gychwyn', 'wrthi'n cael ei gynllunio' neu 'ar waith' pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Medi 2023, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol.